Centre of expertise on child sexual abuse



# Blaenoriaethu camdriniaeth rywiol ar blant

## 15 Medi 2026, Venue Cymru

**Croeso i ddiwrnod diddorol o gyflwyniadau mewn partneriaeth â'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (CSA Centre). Trefnwyd ar y cyd â :**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BWRDD Diogelu Gogledd cymru

north wales Safeguarding BOARD

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

**Bydd y digwyddiad hwn yn eich helpu chi a'ch cydweithwyr i adnabod arwyddion o gam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddynt, a medru gweithio'n hyderus â phlant a theuluoedd.**

Drwy'r dydd, byddwn yn eich cyfeirio at gyngor a chanllawiau defnyddio i'ch helpu i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i ddioddefwyr, goroeswyr a theuluoedd y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt. Cymerwch olwg ar yr amserlen lawn isod.

| | |
|---|---|
| 9.30 am | **Croeso**<br>Dilwyn Morgan |
| 9.40 am | **Rhagarweiniad**<br>Andy Dunbobbin a Taryn Stephens |
| 10.00 am<br>Prif Araith 1 | **Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol**<br>May Baxter-Thornton<br>Bydd yr araith hon yn trafod effaith cam-drin plant yn rhywiol ar blant, pobl ifanc ac oedolion gydol eu hoes. Mae May'n defnyddio ei phrofiad ei hun o gamdriniaeth rywiol ar blant mewn teulu wrth drafod y stigma a'r feirniadaeth y mae'r rhai sy'n datgelu camdriniaeth yn ei wynebu. |
| 10.50 AM | Egwyl a rhwydweithio |
| 11.15 AM<br>Prif Araith 2 | **Camdriniaeth rywiol ar blant yng Nghymru: Heriau a chyfleoedd allweddol mewn ymarfer**<br>Nici Evans a Sharron Wareham<br>I fynd i'r afael â chamdriniaeth rywiol ar blant, mae arnom angen cael gwir ddealltwriaeth o achosion y broblem, ei graddfa a'i heffaith. Bu cynnydd mewn ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol a'r effaith ar ddioddefwyr a goroeswyr mewn blynyddoedd diweddar. Er gwaethaf hynny, mae llawer o ddiffygion yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth yn cyfyngu ar ein gallu i amddiffyn a chefnogi pobl orau y gallwn. Mewn ymateb i hynny, ym mis Mawrth 2026 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r strategaeth genedlaethol deng mlynedd a chynllun cyflawni ar gyfer atal ac ymateb i gam-drin plant rhywiol. Mae hwn yn gynllun uchelgeisiol sy'n pennu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dull hollgynhwysol, system gyfan i fynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol. Bydd yn gofyn am ymrwymiad cyson gan Lywodraeth Cymru i lywio ac ariannu'r gwaith yn hirdymor ac ymrwymiad parhaus ac ystyrlon gan bob un ohonom yn y sectorau statudol a gwirfoddol i weithredu'r strategaeth yn ein polisïau ac ymarfer.<br><br>Fel gydag unrhyw strategaeth, fodd bynnag, mae ei grym yn dibynnu ar y ffordd y caiff ei rhoi ar waith a bydd y sesiwn hwn yn gosod y cyd-destun a chreu darlun o sut y gallwn gydweithio i atal cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru. Byddwn yn rhoi gorolwg o'r hyn y gwyddom am raddfa camdriniaeth rywiol ar blant yn lleol ac yn genedlaethol; yn dangos y cyd-destun i achosion o gamdriniaeth rywiol; nodweddion y rheiny mae'n effeithio arnynt; a phwy sy'n cyflawni camdriniaeth rywiol. Byddwn yn trafod yr heriau allweddol a wynebwn yng Nghymru wrth inni fynd ati i weithredu'r strategaeth a'r heriau y mae gweithwyr proffesiynol yn eu |

hwynebu wrth adnabod camdriniaeth rywiol ar blant ac ymateb i hynny, i baratoi ar gyfer y gweithdai yn y prynhawn.

---

12.15 PM
Prif Araith 3

## Llwybr Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Suzanne Taylor

Bydd y sesiwn hwn yn rhoi gorolwg o'r Llwybr Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol y mae'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol wedi'i sefydlu - ein hadnodd dynamig, ar-lein i helpu'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant i ddeall y camau y gallant eu cymryd i amddiffyn a chefnogi plant a'u teuluoedd. Mae'r Llwybr Ymateb yn dangos sut i ymateb i bryderon o gam-drin plant yn rhywiol ar adegau allweddol mewn prosesau diogelu a chyfiawnder troseddol, gan ganolbwyntio ar fodloni anghenion plant a'u teuluoedd gydol yr amser. Fe'i lluniwyd i roi'r grym i weithwyr proffesiynol ddeall y rhan y gallant hwy a'u cydweithwyr ei chwarae i amddiffyn a chefnogi plant orau.  Byddwn yn canolbwyntio ar y rhesymau pam fod angen yn Llwybr Ymateb, y ffordd y'i lluniwyd, cynlluniau peilot ar ei gyfer a sut i'w ddefnyddio wrth eich gwaith. Byddwn hefyd yn trafod y llwybr lleol yn ystod y sesiwn.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i sefydlu llwybr cenedlaethol ar gyfer camdriniaeth rywiol ar blant er mwyn sicrhau fod plant yn derbyn ymateb cyson a phriodol pan mae pryderon o gamdriniaeth, yn ogystal â gweithredu fframwaith hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol. Mae'r rhain yn gamau arwyddocaol a phendant, a bydd trafodaeth am y Llwybr Ymateb yn y sesiwn hwn.

---

1.00 PM — Cinio

---

2.00 PM
Sesiwn Drafod

## A) Cyfathrebu â phlant

Dr Natasha Sabin

Gwyddom fod gweithwyr proffesiynol a phlant yn wynebu amryw rwystrau rhag siarad am gamdriniaeth rywiol. Mae'n hanfodol fod pawb sy'n gweithio â phlant yn gwybod sut i adnabod y gallai fod rhywbeth o'i le ac yn deall sut i roi hyder i blant fedru cyfleu'r hyn sy'n digwydd iddynt. Bydd y gweithdy hwn yn rhoi'r wybodaeth a'r hyder i weithwyr proffesiynol fedru gweithredu, gan ddefnyddio canllaw'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol ar gyfer Cyfathrebu â Phlant. Byddwn yn egluro beth allai fod yn digwydd ym mywydau plant pan mae rhywun yn eu cam-drin yn rhywiol, beth sy'n eu hatal rhag siarad am y gamdriniaeth ac yn bwysicaf oll, yr hyn y gall gweithwyr proffesiynol ei wneud i helpu plant i siarad am yr hyn sy'n digwydd. Mae'r gweithdy'n addas i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant.

## B) Arwyddion a dangosyddion o gam-drin plant yn rhywiol

Paul Burnside

*'Mae gweithwyr proffesiynol yn dibynnu gormod ar blant i ddatgelu ar lafar'* - Adroddiad ynghylch camdriniaeth rywiol ar blant mewn teuluoedd, Ymchwiliad Ardal ar y Cyd wedi'i Dargedu 2020.

Yn y gweithdy hwn, bydd cyfranogwyr yn dysgu am dempled Arwyddion a Dangosyddion y Ganolfan, sydd â'r nod o roi hyder iddynt wrth greu darlun o'r arwyddion a dangosyddion mewn ymddygiad ac ymddangosiad plentyn, ynghyd â'r arwyddion a dangosyddion ymysg y bobl sy'n peri pryderon, ac elfennau o deulu'r plant a'r amgylchedd cyffredinol sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Mae'r gweithdy'n gyfle i gydweithio wrth ddefnyddio'r templed Arwyddion a Dangosyddion yn ymarferol ac ystyried sut y gallai'ch sefydliad chi ei ddefnyddio'n

effeithiol. Anelir y gweithdy at yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant a theuluoedd, gan gynnwys rhai sy'n gweithio â rhieni yn unig.

### C) Cynllunio diogelwch mewn addysg:

Lorraine Myles

Mae gweithwyr proffesiynol ym myd addysg yn rheoli nifer cynyddol o ddigwyddiadau lle mae pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol – plant a phobl ifanc yn trafod rhyw neu'n cyflawni gweithredoedd rhywiol sy'n amhriodol i'w hoedran neu'u datblygiad. Yn aml iawn, mae gofyn iddynt ar sail cyngor anghyflawn neu anghyson ynglŷn â sut i asesu risgiau i'r plentyn a niweidiwyd a'r plentyn a achosodd y niwed, a sut i ddatblygu cynllun diogelwch effeithiol.

Bydd y gweithdy'n cyflwyno canllaw'r Ganolfan ynglŷn â Chynllunio ar gyfer diogelwch mewn ysgolion - canllaw i weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant yn sgil ymddygiad rhywiol niweidiol. Fe'i datblygwyd i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol wrth ystyried a phenderfynu a oes ymddygiad rhywiol niweidiol wedi digwydd yn eu lleoliadau addysg ac i roi enghreifftiau o'r ffyrdd gorau i weithwyr proffesiynol ymateb i anghenion plant a'u diogelu pan mae rhywbeth yn digwydd. Mae'r gweithdy'n addas i weithwyr proffesiynol addysg, asiantaethau sy'n cefnogi addysg, chwaraeon a hamdden a lleoliadau eraill sy'n gysylltiedig.

### D) Gweithio gydag oedolion sydd wedi'u heffeithio gan gamdriniaeth rywiol mewn plentyndod

Nici Evans

Mae camdriniaeth rywiol ar blant yn medru effeithio ar ddioddefwyr a goroeswyr mewn amrywiaeth helaeth o ffyrdd ond mae natur a graddfa'r effeithiau hynny'n amrywio ac mae'n effeithio ar bawb yn wahanol. Gall camdriniaeth rywiol effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol dioddefwyr a goroeswyr, eu perthnasoedd ag eraill a llawer o agweddau eraill ar eu bywydau.

Nid yw rhai dioddefwyr a goroeswyr byth yn siarad am yr hyn a ddigwyddodd iddynt, neu efallai nad ydynt yn teimlo'u bod yn medru sôn wrth neb am gael eu cam-drin pan oeddent yn blant. Ond pan ofynnir iddynt, mae dioddefwyr a goroeswyr yn dweud yn gyson eu bod eisiau i weithwyr proffesiynol ofyn iddynt am eu profiadau o gamdriniaeth rywiol. Bydd y gweithdy hwn, felly, yn cynnig dulliau ymarferol i weithwyr proffesiynol gefnogi oedolion a siarad â hwy am gamdriniaeth rywiol pan oeddent yn blant, gan ymchwilio i'r rhwystrau maent yn eu hwynebu a'r manteision o ofyn y cwestiwn. Mae'n addas i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ag oedolion, gan gynnwys rhai sy'n gweithio â theuluoedd yn y Gwasanaethau Plant.

### D) Gweithio â rhieni a gofalwyr nad ydynt yn cam-drin

Suzanne Taylor

Mae ymchwil yn dangos fod y gefnogaeth y mae plentyn yn ei chael gan eu prif ofalwyr a'r teulu ehangach yn un o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol yn effaith hirdymor camdriniaeth rywiol, ac mae'n dylanwadu'n drwm ar y ffordd y mae plentyn yn deall yr hyn sydd wedi digwydd ac ymateb iddo.

Yn y gweithdy hwn bydd y Ganolfan yn cyflwyno ei Chanllaw i Gefnogi Rhieni a Gofalwyr, sy'n rhoi cyngor i weithwyr proffesiynol ynglŷn â'r ffyrdd gorau o gefnogi rhieni mewn amryw wahanol achosion o gam-drin plant yn rhywiol er mwyn iddynt hwy fedru cefnogi eu plant. Byddwn yn trafod yr effaith ar rieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin o ddarganfod fod eu plant wedi'u cam-drin yn rhywiol, yn ogystal â'r heriau y gall hynny eu creu wrth fagu eu plant yn effeithiol. Mae'r gweithdy'n

addas i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant a theuluoedd, gan gynnwys rhai sy'n gweithio â rhieni yn unig.

| | |
|---|---|
| 3.00 PM | Egwyl |

3.15 PM
Sesiwn Drafod

## A) Cyfathrebu â phlant

Dr Natasha Sabin

Gwyddom fod gweithwyr proffesiynol a phlant yn wynebu amryw rwystrau rhag siarad am gamdriniaeth rywiol. Mae'n hanfodol fod pawb sy'n gweithio â phlant yn gwybod sut i adnabod y gallai fod rhywbeth o'i le ac yn deall sut i roi hyder i blant fedru cyfleu'r hyn sy'n digwydd iddynt. Bydd y gweithdy hwn yn rhoi'r wybodaeth a'r hyder i weithwyr proffesiynol fedru gweithredu, gan ddefnyddio canllaw'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol ar gyfer Cyfathrebu â Phlant. Byddwn yn egluro beth allai fod yn digwydd ym mywydau plant pan mae rhywun yn eu cam-drin yn rhywiol, beth sy'n eu hatal rhag siarad am y gamdriniaeth ac yn bwysicaf oll, yr hyn y gall gweithwyr proffesiynol ei wneud i helpu plant i siarad am yr hyn sy'n digwydd. Mae'r gweithdy'n addas i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant.

## B) Arwyddion a dangosyddion o gam-drin plant yn rhywiol

Paul Burnside

*'Mae gweithwyr proffesiynol yn dibynnu gormod ar blant i ddatgelu ar lafar'* - Adroddiad ynghylch camdriniaeth rywiol ar blant mewn teuluoedd, Ymchwiliad Ardal ar y Cyd wedi'i Dargedu 2020.

Yn y gweithdy hwn, bydd cyfranogwyr yn dysgu am dempled Arwyddion a Dangosyddion y Ganolfan, sydd â'r nod o roi hyder iddynt wrth greu darlun o'r arwyddion a dangosyddion mewn ymddygiad ac ymddangosiad plentyn, ynghyd â'r arwyddion a dangosyddion ymysg y bobl sy'n peri pryderon, ac elfennau o deulu'r plant a'r amgylchedd cyffredinol sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Mae'r gweithdy'n gyfle i gydweithio wrth ddefnyddio'r templed Arwyddion a Dangosyddion yn ymarferol ac ystyried sut y gallai'ch sefydliad chi ei ddefnyddio'n effeithiol. Anelir y gweithdy at yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant a theuluoedd, gan gynnwys rhai sy'n gweithio â rhieni yn unig.

## C) Cynllunio diogelwch mewn addysg

Lorraine Myles

Mae gweithwyr proffesiynol ym myd addysg yn rheoli nifer cynyddol o ddigwyddiadau lle mae pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol – plant a phobl ifanc yn trafod rhyw neu'n cyflawni gweithredoedd rhywiol sy'n amhriodol i'w hoedran neu'u datblygiad. Yn aml iawn, mae gofyn iddynt ar sail cyngor anghyflawn neu anghyson ynglŷn â sut i asesu risgiau i'r plentyn a niweidiwyd a'r plentyn a achosodd y niwed, a sut i ddatblygu cynllun diogelwch effeithiol.

Bydd y gweithdy'n cyflwyno canllaw'r Ganolfan ynglŷn â Chynllunio ar gyfer diogelwch mewn ysgolion - canllaw i weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant yn sgil ymddygiad rhywiol niweidiol. Fe'i datblygwyd i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol wrth ystyried a phenderfynu a oes ymddygiad rhywiol niweidiol wedi digwydd yn eu lleoliadau addysg ac i roi enghreifftiau o'r ffyrdd gorau i weithwyr proffesiynol ymateb i anghenion plant a'u diogelu pan mae rhywbeth yn digwydd. Mae'r gweithdy'n addas i weithwyr proffesiynol addysg, asiantaethau sy'n cefnogi addysg, chwaraeon a hamdden a lleoliadau eraill sy'n gysylltiedig.

**D) Gweithio gydag oedolion sydd wedi'u heffeithio gan gamdriniaeth rywiol mewn plentyndod**
Nici Evans

Mae camdriniaeth rywiol ar blant yn medru effeithio ar ddioddefwyr a goroeswyr mewn amrywiaeth helaeth o ffyrdd ond mae natur a graddfa'r effeithiau hynny'n amrywio ac mae'n effeithio ar bawb yn wahanol. Gall camdriniaeth rywiol effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol dioddefwyr a goroeswyr, eu perthnasoedd ag eraill a llawer o agweddau eraill ar eu bywydau.

Nid yw rhai dioddefwyr a goroeswyr byth yn siarad am yr hyn a ddigwyddodd iddynt, neu efallai nad ydynt yn teimlo'u bod yn medru sôn wrth neb am gael eu cam-drin pan oeddent yn blant. Ond pan ofynnir iddynt, mae dioddefwyr a goroeswyr yn dweud yn gyson eu bod eisiau i weithwyr proffesiynol ofyn iddynt am eu profiadau o gamdriniaeth rywiol. Bydd y gweithdy hwn, felly, yn cynnig dulliau ymarferol i weithwyr proffesiynol gefnogi oedolion a siarad â hwy am gamdriniaeth rywiol pan oeddent yn blant, gan ymchwilio i'r rhwystrau maent yn eu hwynebu a'r manteision o ofyn y cwestiwn. Mae'n addas i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ag oedolion, gan gynnwys rhai sy'n gweithio â theuluoedd yn y Gwasanaethau Plant.

**D) Gweithio â rhieni a gofalwyr nad ydynt yn cam-drin**
Suzanne Taylor

Mae ymchwil yn dangos fod y gefnogaeth y mae plentyn yn ei chael gan eu prif ofalwyr a'r teulu ehangach yn un o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol yn effaith hirdymor camdriniaeth rywiol, ac mae'n dylanwadu'n drwm ar y ffordd y mae plentyn yn deall yr hyn sydd wedi digwydd ac ymateb iddo.

Yn y gweithdy hwn bydd y Ganolfan yn cyflwyno ei Chanllaw i Gefnogi Rhieni a Gofalwyr, sy'n rhoi cyngor i weithwyr proffesiynol ynglŷn â'r ffyrdd gorau o gefnogi rhieni mewn amryw wahanol achosion o gam-drin plant yn rhywiol er mwyn iddynt hwy fedru cefnogi eu plant. Byddwn yn trafod yr effaith ar rieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin o ddarganfod fod eu plant wedi'u cam-drin yn rhywiol, yn ogystal â'r heriau y gall hynny eu creu wrth fagu eu plant yn effeithiol. Mae'r gweithdy'n addas i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant a theuluoedd, gan gynnwys rhai sy'n gweithio â rhieni yn unig.

| | |
|---|---|
| 4.20 PM | **Arfarnu a dod â'r diwrnod i ben** |
| 4.45 PM | **Diwedd** |

# Siaradwyr

### Y Cynghorydd Dilwyn Morgan

**Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Dilwyn yw'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Lles yng Nghyngor Gwynedd. Ers mis Ebrill 2023, bu Dilwyn yn Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Un o flaenoriaethau pennaf Dilwyn fel Cadeirydd yw ceisio codi ymwybyddiaeth o waith y Bwrdd drwy glywed straeon gan bobl gogledd Cymru am iechyd a gofal cymdeithasol a'u rhannu ag eraill. Mae Dilwyn hefyd yn credu'n gryf fod digwyddiadau fel

un heddiw'n fuddiol dros ben. Mae'n gyfle i'ch helpu chi a'ch cydweithwyr i adnabod camdriniaeth rywiol ar blant ac ymateb i hynny'n effeithiol, a darparu'r gefnogaeth orau bosib i blant a theuluoedd.

Mae Dilwyn hefyd yn wyneb a llais cyfarwydd ar S4C a'r radio. Ei ddiddordebau pennaf yw rygbi a hwylio. Cafodd ei eni a'i fagu yn y Bala ac mae'n dal yn byw yno.

## Andrew Dunbobbin

### Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yw'r corff llywodraethu lleol ar gyfer plismona yn y rhanbarth. Mae gan ddeiliad y swydd ddyletswydd gyffredinol dros sicrhau Heddlu effeithlon ac effeithiol, sydd yn dangos gwerth am arian, ac yn fwy na dim, yn lleihau trosedd. Mae gan y Comisiynydd bedwar prif gyfrifoldeb sef: gosod y blaenoriaethau dros blismona yng ngogledd Cymru; pennu'r gyllideb ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru; dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif; a gwrando ac ymateb i farn y cyhoedd ar blismona. Etholwyd y Comisiynydd presennol, Andy Dunbobbin, ym mis Mai 2021 a chafodd ei ailethol ym mis Mai 2024. Yn rhan o'i swydd, mae Mr Dunbobbin wedi cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru a fydd yn ganllaw i blismona yn y rhanbarth dros y blynyddoedd i ddod. Ei flaenoriaethau yn y cynllun yma yw presenoldeb plismona yn y gymdogaeth leol; cefnogi dioddefwyr, cymunedau a busnesau; a system gyfiawnder troseddol teg ac effeithiol.

## Taryn Stephens

### Dirprwy Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru

Taryn Stephens yw Dirprwy Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n darparu arweinyddiaeth genedlaethol ym maes gofal cymdeithasol ac yn goruchwylio'r Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth, gan gynnwys diogelu ac eiriolaeth, strategaeth y gweithlu, comisiynu a gorolwg o'r farchnad, llwybrau gofal a meithrin cyswllt â'r cyhoedd a'r sector. Mae'n Weithiwr Cymdeithasol cymwys ac yn gyn-Bennaeth Gwasanaethau Plant a Diogelu sydd â phrofiad helaeth ym maes amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal ac arwain systemau. Mae Taryn yn gweithio'n agos â Gweinidogion a Phrif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru wrth gefnogi datblygiad polisïau a deddfwriaeth a hybu gwelliant yn y sector gofal cymdeithasol.

## May Baxter-Thornton

### Siaradwr cyhoeddus a hyfforddwr dawnus

Mae May'n gweithio'n ddiwyd i godi ymwybyddiaeth o'r cymhlethdodau ynglŷn â chamdriniaeth rywiol ar blant. Yn ddiweddar, cymerodd May ran yn y Panel Ymgynghori â Dioddefwyr a Goroeswyr ar gyfer yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, fel rhywun sydd wedi goroesi camdriniaeth rywiol mewn plentyndod ac sydd hefyd yn gweithio â goroeswyr eraill, a gofynnwyd iddi gymryd rhan yn benodol oherwydd ei phrofiad o weithio am bymtheg mlynedd a mwy ym maes trais domestig mewn llochesi ledled gogledd ddwyrain Lloegr, yn cefnogi plant ac oedolion wedi goroesi camdriniaeth rywiol .

## Emma Hodgson

### Ymgynghorydd Gwella Ymarfer, y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae Emma'n weithiwr cymdeithasol cymwys sy'n addysgu ymarferwyr. Cyn iddi ymuno â'r Ganolfan, bu Emma'n gweithio i'r NSPCC am bron i ugain mlynedd ym maes plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol a gwasanaethau adferol; treuliodd bymtheg mlynedd fel ymarferydd yn y rheng flaen ac wedyn bu'n weithiwr datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol. Wrth addysgu ymarferwyr, bu'n canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant, gweithdai ac adnoddau i amrywiaeth helaeth o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant a theuluoedd. Datblygodd ganllawiau a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol ag ymddygiad rhywiol niweidiol wedi'i hwyluso gan dechnoleg, yn ogystal ag ymchwilio i'r maes hwnnw wrth gwblhau gradd Meistr mewn seicoleg fforensig, gan roi sylw i'r adnoddau ac

offer sydd ar gael i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phobl ifanc. Mae Emma wrthi'n astudio ar gyfer Doethuriaeth yn yr un pwnc.

## Lorraine Myles

### Ymgynghorydd Gwella Ymarfer, y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae Lorraine yn athro cymwys â bron i ddeng mlynedd ar hugain o brofiad ym myd addysg yng nghyfnodau allweddol un i bedwar. Fe ddechreuodd Lorraine weithio mewn ysgolion prif ffrwd cyn symud i'r sector addysg arbennig lle bu'n gweithio â nifer helaeth o blant a phobl ifanc â phrofiad o gamdriniaeth a thrawma. Yn ystod ei gyrfa, mae hi wedi bod yn ymgynghorydd addysgol, pennaeth ysgol rithiol i blant yng ngofal Awdurdod Lleol ac wedyn yn bennaeth ar dair o ysgolion arbennig yn ne ddwyrain Lloegr. Roedd hynny'n cynnwys ysgolion dydd ac ysgolion preswyl, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgol ddiogel – pob un ohonynt yn cynnig darpariaeth neilltuol i blant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol ac anghenion iechyd meddwl.

## Dr Natasha Sabin

### Ymgynghorydd Gwella Ymarfer, y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae Natasha'n Seicolegydd Fforensig â phrofiad proffesiynol o gamdriniaeth rywiol ar blant. Bu'n ymarferydd Cyfiawnder Ieuenctid ac yn rheolwr yn arbenigo mewn ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae Natasha hefyd wedi gweithio mewn ysbytai diogel a dalfeydd lle bu'n gweithio'n bennaf â dynion oedd wedi cyflawni troseddau rhywiol. Mae Natasha'n ddarlithydd gwadd ym Mhrifysgol Birmingham lle mae'n hwyluso sesiynau i addysgu Seicolegwyr Fforensig a Chlinigol dan hyfforddiant.

## Sharron Wareham

### Ymgynghorydd Gwella Ymarfer, y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae Sharron yn weithiwr cymdeithasol cymwys â mwy nag ugain mlynedd o brofiad o weithio â phlant a theuluoedd y mae camdriniaeth rywiol wedi effeithio arnynt. Cyn ymuno â'r Ganolfan, bu'n gweithio'n uniongyrchol â phlant a theuluoedd yr oedd ymddygiad rhywiol niweidiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi effeithio arnynt, a bu'n cefnogi plant a theuluoedd wrth adfer ar ôl cam-drin plant yn rhywiol. Bu Sharron yn rheoli tîm amlddisgyblaethol am ddeng mlynedd, yn cynorthwyo ag ymatebion i asesiadau o gam-drin plant yn rhywiol ac ymyriadau eraill mewn chwech o awdurdodau lleol. Mae hi wedi rheoli nifer helaeth o brosiectau ymchwil a llunio canllawiau ymarfer statudol ac anstatudol i Lywodraeth Cymru er mwyn hybu dealltwriaeth a sicrhau gwell ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Mae hefyd yn gadeirydd Partneriaeth Diogelwch ar y Rhyngrwyd Cymru, sy'n canolbwyntio ar hybu gwytnwch digidol plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru ac yn gadeirydd y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Trin Camdriniaeth (NOTA) yng Nghymru.

## Paul Burnside

### Ymgynghorydd Gwella Ymarfer, y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae Paul wedi ymddeol fel Ditectif Arolygydd Gwarchod y Cyhoedd â Heddlu Swydd Gaerhirfryn a bu'n Arolygydd Amddiffyn Plant ar ran yr Arolygiaeth Cwnstabliaeth. Bu'n gyfrifol am lunio'r gweithdrefnau safonol cyntaf erioed yn Swydd Gaerhirfryn ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant, sefydlu Bwrdd Diogelu Plant y sir a Chynllun Gweithredu ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, a'r llawlyfr cyntaf i'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol. Yn ei swydd bresennol â'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol, mae Paul yn gweithio â heddluoedd yng Nghymru a Lloegr i gael gwell dealltwriaeth o'u heffeithiolrwydd wrth atal cam-drin plant yn rhywiol a dylanwadu ar arferion da. Yn ogystal â hynny, mae Paul yn gweithio â thîm ehangach y Ganolfan i gyfrannu at bolisïau ac ymatebion cenedlaethol ar sail ein gwaith ymchwil a'n hadnoddau.

## Nici Evans

### Ymgynghorydd Gwella Ymarfer, y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Gweithiodd Nici ym maes gofal iechyd am fwy na phum mlynedd ar hugain, gan ddechrau fel nyrs a darlithydd yn arbenigo mewn canser a gofal lliniarol. Yn 2007, bu'n ymdrin â'r holl gymhlethdodau o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus fel Pennaeth Partneriaethau ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a swyddog arweiniol gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn mynd i'r afael â chamfanteisio ar bobl. Yn swydd honno, datblygodd frwdfrydedd am weithio â phobl ddiamddiffyn ac fe sefydlodd brosesau amlasiantaethol cadarn i gefnogi pobl sy'n gweithio yn y diwydiant rhyw yn ogystal â dioddefwyr a goroeswyr masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth yng Nghaerdydd. Mae ganddi gysylltiadau cryf o hyd â'r byd nyrsio, iechyd, gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol mewn asiantaethau cyfiawnder troseddol ledled Cymru. Mae Nici'n seicotherapydd sydd wedi cofrestru â Chyngor Seicotherapi'r Deyrnas Unedig ac mae'n gweithio mewn ysgol gyfun yng Nghaerdydd, lle mae'n cynnal ei chysylltiad â phlant a phobl ifanc ac yn cadw'n gyfoes ag ymarfer yn y maes. Ar sail ei gwybodaeth a'i phrofiad o weithio ym maes camfanteisio rhywiol a throseddol ar oedolion – gan gynnwys cefnogi goroeswyr camdriniaeth rywiol mewn plentyndod – ymunodd Nici â'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol yn 2019 fel Ymgynghorydd Gwella Ymarfer yng Nghymru. Yn y swydd hon, mae'n elwa ar oes o brofiad gwaith wrth gefnogi datblygiad parhaus y dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ymdrin â cham-drin plant yn rhywiol ar lefelau gweithredol a strategol ledled Cymru.

## Suzanne Taylor

### Ymgynghorydd Gwella Ymarfer, y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae Suzanne yn arbenigo ym maes camfanteisio'n rhywiol ar blant ac fe dreuliodd un ar bymtheg o flynyddoedd yn cefnogi plant, ac mae'n arweinydd strategol profiadol a fu'n gweithio yn y sectorau statudol ac elusennol am yr ugain mlynedd diwethaf. Mae'n ymfalchïo yn ei galwedigaeth fel Gweithiwr Ieuenctid ac yn meddu ar brofiad helaeth fel ymarferydd ac arweinydd mewn gwasanaethau arbenigol hynod effeithiol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Cyn iddi ymuno â'r Ganolfan, bu Suzanne yn arwain ymgyrch genedlaethol Barnardo's i newid systemau er mwyn ymateb yn well i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol neu gael eu camfanteisio arnynt yn droseddol. Treuliodd y rhan helaeth o'i gyrfa'n arwain Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ledled gogledd orllewin Lloegr, a bu'n ysgwyddo amryw gyfrifoldebau eraill fel Cydlynydd Consortiwm Adsefydlu Manceinion Fawr, aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Lleol ar gyfer Diogelu Plant ac aelod o Gyngor Datblygu Gweithlu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae ganddi brofiad helaeth o gydweithio i ddylanwadu ar newidiadau diwylliannol eang drwy ganolbwyntio ar gydgynhyrchu gyda phlant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol a gwneud gwaith ymchwil yn fwy perthnasol i ymarferwyr.

# Cefnogi:

Mae Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru yn darparu gwybodaeth, cefnogaeth arbenigol a therapi i unrhyw un tair oed a hŷn sydd wedi profi unrhyw fath o gamdriniaeth neu drais rhywiol yn ddiweddar neu yn y gorffennol. Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth arbenigol a therapi i bartneriaid ac aelodau o deuluoedd y rhai hynny sydd wedi'u heffeithio gan gamdriniaeth a thrais rhywiol.

# Stondinau:

**Ewch i wefan y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol [www.csacentre.org.uk](http://www.csacentre.org.uk) i weld yr holl adnoddau a gwaith ymchwil a chofrestru i gael y newyddlen bob mis [www.csacentre.org.uk/newsletter/](http://www.csacentre.org.uk/newsletter/) a chael gwybod beth sydd ganddynt ar y gweill.**